OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2011 Rhif 555 (Cy.78)

# DIOGELU'R AMGYLCHEDD, CYMRU
# TRWYDEDU (MOROL), CYMRU
# LLYGREDD MOROL, CYMRU

## Rheoliadau Trwyddedu Morol (Ffioedd am Geisiadau) (Cymru) 2011

| | |
|---|---|
| *Gwnaed - - - -* | *25 Chwefror 2011* |
| *Gosodwyd gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru - -* | *1 Mawrth 2011* |
| *Yn dod i rym - -* | *6 Ebrill 2011* |

Mae Gweinidogion Cymru, sef yr awdurdod trwyddedu priodol o dan adran 113(4)(b) o Ddeddf y Môr a Mynediad i'r Arfordir 2009(**1**), yn gwneud y Rheoliadau canlynol drwy arfer y pwerau a roddwyd gan adrannau 67(2), (3)(b) a 316(1)(b) o'r Ddeddf honno.

### Enwi a chychwyn

**1.**—(1) Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Trwyddedu Morol (Ffioedd am Geisiadau) (Cymru) 2011.

(2) Daw'r Rheoliadau hyn i rym ar 6 Ebrill 2011.

### Cymhwyso

**2.** Mae'r Rheoliadau hyn yn gymwys o ran unrhyw gais am drwydded forol y mae Gweinidogion Cymru yn awdurdod trwyddedu priodol mewn perthynas ag ef (**2**).

### Dehongli

**3.**—(1) Yn y Rheoliadau hyn—

ystyr "ardal amgylcheddol sensitif" ("*environmentally sensitive area*" ) yw—

(**1**) 2009 p.23.

(**2**) Yn rhinwedd adran 113(4)(b) o Ddeddf y Môr a Mynediad i'r Arfordir 2009 (p.23), Gweinidogion Cymru yw'r awdurdod trwyddedu priodol o ran unrhyw beth a wneir wrth ymgymryd â gweithgaredd morol trwyddedadwy mewn perthynas â Chymru a rhanbarth glannau Cymru, ac eithrio gweithgareddau y mae'r Ysgrifennydd Gwladol yn awdurdod trwyddedu priodol ar eu cyfer yn rhinwedd adrannau 113(4)(a) a (5) o'r Ddeddf honno. *Gweler* adran 322(1) am ddiffiniad o "Welsh inshore region".

(a) gwarchodfa natur forol o fewn yr ystyr a roddir i "marine nature reserve" yn adran 36 o Ddeddf Cefn Gwlad a Bywyd Gwyllt 1981(**3**);

(b) safle Ramsar o fewn yr ystyr a roddir i "Ramsar site" yn adran 37A o Ddeddf Cefn Gwlad a Bywyd Gwyllt 1981(**4**);

(c) safle o ddiddordeb gwyddonol arbennig o fewn yr ystyr a roddir i "site of special scientific interest" yn adran 28 o Ddeddf Cefn Gwlad a Bywyd Gwyllt 1981(**5**);

(ch) ardal cadwraeth arbennig o fewn yr ystyr a roddir i "special area of conservation" gan Erthygl 1(1) o Gyfarwyddeb y Cyngor 92/43/EEC ar gadwraeth cynefinoedd naturiol a ffawna a fflora gwyllt (y Gyfarwyddeb Cynefinoedd)(**6**);

(d) ardal gwarchodaeth arbennig o fewn yr ystyr a roddir i "special protection area" gan Reoliadau Cadwraeth Cynefinoedd a Rhywogaethau 2010(**7**);

ystyr "cais am drwydded forol" ("*application for a marine licence*") yw cais am drwydded i ymgymryd ag un neu ragor o weithgareddau morol trwyddedadwy;

ystyr "ffi" ("*fee*") yw'r ffi sy'n daladwy am benderfynu cais am drwydded forol;

ystyr "tâl atodol sensitifrwydd amgylcheddol" ("*environmental sensitivity supplement*") yw ychwanegiad at y ffi sy'n daladwy mewn perthynas â rhai ceisiadau am drwydded forol.

(2) Yn y Rheoliadau hyn, mae cyfeiriad at dabl â rhif yn gyfeiriad at y tabl sy'n dwyn y rhif hwnnw yn yr Atodlen.

**Talu ac adennill ffioedd**

**4.**—(1) Mae'r holl ffioedd yn daladwy i Weinidogion Cymru.

(2) Mae'r holl ffioedd yn daladwy pan ofynnir am y tâl.

(3) Caniateir talu unrhyw ffi drwy ddull electronig.

(4) Bydd Gweinidogion Cymru wedi cael unrhyw ffi pan fydd arian cliriedig yn eu meddiant ar gyfer swm cyfan y ffi honno.

(5) Bydd unrhyw ffi neu ran o ffi na fydd wedi ei thalu yn adenilladwy gan Weinidogion Cymru fel dyled sifil.

(**3**) 1981 (p.69). Diwygiwyd adran 36 gan adran 3 o Ddeddf y Môr Tiriogaethol 1987 (p.49) a pharagraff 6 o Atodlen 1 i'r Ddeddf honno; adran 105 o Ddeddf yr Amgylchedd Naturiol a Chymunedau Gwledig 2006 (p.16) a pharagraff 85 o Ran 1 o Atodlen 11 i'r Ddeddf honno; adran 66(6) o Ddeddf Llywodraeth Leol (Cymru) 1994 (p.19) a pharagraff 65(4) o Atodlen 16 i'r Ddeddf honno; adran 102 o Ddeddf Llywodraeth Leol 1985 (p.51) ac Atodlen 17 i'r Ddeddf honno; adran 32(5) o Ddeddf 1987 (p.21) ac Atodlen 3 i'r Ddeddf honno. Mae diwygiadau eraill, nad ydynt yn berthnasol at y dibenion hyn. Trosglwyddwyd swyddogaethau'r Ysgrifennydd Gwladol, i'r graddau y maent yn arferadwy o ran Cymru, i Weinidogion Cymru gan erthygl 2 o Orchymyn Cynulliad Cenedlaethol (Trosglwyddo Swyddogaethau) 1999 [O.S. 1999/672] ac Atodlen 1 i'r Gorchymyn hwnnw a chan baragraff 30 o Atodlen 11 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (p.32).

(**4**) 1981 (p.69). Mewnosodwyd adran 37A gan adran 77 o Ddeddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy 2000 (p.37) a diwygiwyd hi gan adran 105 o Ddeddf yr Amgylchedd Naturiol a Chymunedau Gwledig 2006 (p.16) a pharagraff 86 o Atodlen 11 i'r Ddeddf honno.

(**5**) 1981 (p.69). Amnewidiwyd adran 28 gan adran 75(1) o Ddeddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy 2000 (p.37) a pharagraff 1 o Atodlen 9 i'r Ddeddf honno. Diwygiwyd gan adran 105(1) o Ddeddf yr Amgylchedd Naturiol a Chymunedau Gwledig 2006 (p.16) a pharagraff 79 o Ran 1 o Atodlen 11 i'r Ddeddf honno. Mae diwygiadau eraill, nad ydynt yn berthnasol at y dibenion hyn. Dylid darllen adran 28 yn unol ag adran 27AA. Trosglwyddwyd swyddogaethau'r Ysgrifennydd Gwladol, i'r graddau y maent yn arferadwy o ran Cymru, i Weinidogion Cymru gan erthygl 2 o Atodlen 1 i O.S. 1999/672 a pharagraff 30 o Atodlen 11 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (p.32).

(**6**) O.J. Rhif L 206 22.7.1992 t.7-50.

(**7**) O.S. 2010/490. Mewnosodwyd rheoliad 12A newydd sy'n diffinio "special protection area" gan Reoliadau Cadwraeth Cynefinoedd a Rhywogaethau (Diwygio) 2011 (O.S. 2011/625).

**Prosiectau adeiladu**

**5.**—(1) Yn achos cais am drwydded forol sy'n ymwneud â phrosiect adeiladu nad yw'n dod o fewn rheoliad 9 (prosiectau ynni adnewyddadwy alltraeth), penderfynir y ffi drwy gyfeirio at y raddfa ffioedd a bennir yn nhabl 1.

(2) Ond, ac eithrio yn achos cais y mae band 1 yn nhabl 1 yn gymwys iddo, mae paragraff (1) yn ddarostyngedig i baragraff (3).

(3) Os bwriedir ymgymryd ag un neu ragor o'r gweithgareddau morol trwyddedadwy sy'n ffurfio testun y cais y cyfeirir ato ym mharagraff (1) o fewn neu'n agos at ardal amgylcheddol sensitif, bydd tâl atodol sensitifrwydd amgylcheddol yn daladwy.

(4) Pan fo tâl atodol sensitifrwydd amgylcheddol yn daladwy, penderfynir swm y tâl atodol drwy gyfeirio at y symiau a bennir yn nhabl 2.

**Gwaredu — treillio morol**

**6.**—(1) Yn achos cais am drwydded forol sy'n ymwneud â gwaredu deunydd a dreillir, nad yw'n dod o fewn paragraff (4), penderfynir y ffi drwy gyfeirio at y graddfeydd ffioedd a bennir yn nhabl 3.

(2) Pan fo'r deunydd a dreillir y cyfeirir ato ym mharagraff (1) yn tarddu o waith treillio cyfalaf, mae'r raddfa ffioedd yn y drydedd golofn yn nhabl 3 yn gymwys.

(3) Pan fo'r deunydd a dreillir y cyfeirir ato ym mharagraff (1) yn tarddu o waith treillio cynnal a chadw, mae'r raddfa ffioedd yn y bedwaredd golofn yn nhabl 3 yn gymwys.

(4) Yn achos cais am drwydded forol sy'n ymwneud â gwaredu deunydd a dreillir at ddefnydd llesiannol, penderfynir y ffi drwy gyfeirio at y graddfeydd ffioedd a bennir yn nhabl 4.

(5) Ond mae paragraff (4) yn ddarostyngedig i baragraff (6).

(6) Os bwriedir ymgymryd ag neu ragor o'r gweithgareddau morol trwyddedadwy sy'n ffurfio testun y cais, y cyfeirir ato ym mharagraff (4), o fewn neu'n agos at ardal amgylcheddol sensitif, bydd tâl atodol sensitifrwydd amgylcheddol yn daladwy.

(7) Pan fo tâl atodol sensitifrwydd amgylcheddol yn daladwy, penderfynir swm y tâl atodol drwy gyfeirio at y symiau a bennir yn nhabl 2, yn ddarostyngedig i'r addasiad ym mharagraff (8).

(8) Pan fo paragraff (7) yn gymwys, rhaid darllen cyfeiriad yn nhabl 2 at gost y prosiect fel pe bai'n gyfeiriad at gost y prosiect y mae'r deunydd a dreillir ac y bwriedir ei waredu yn tarddu ohono.

(9) Yn y rheoliad hwn—

ystyr "defnydd llesiannol" ("*beneficial use*") yw defnydd sy'n llesiannol i'r amgylchedd;

ystyr "deunydd a dreillir" ("*dredged material*") yw unrhyw sylwedd neu wrthrych sy'n tarddu o dreillio morol.

**Gwaredu — gwastraff pysgod**

**7.** Pan fo cais am drwydded forol yn ymwneud â gwaredu gwastraff pysgod, penderfynir y ffi drwy gyfeirio at dabl 5.

**Echdynnu mwynau drwy dreillio morol**

**8.**—(1) Yn achos cais am drwydded forol sy'n ymwneud ag echdynnu mwynau drwy dreillio morol, penderfynir y ffi drwy gyfeirio at yr ail golofn yn nhabl 6.

(2) Ond mae paragraff (1) yn ddarostyngedig i baragraff (3).

(3) Pan fo penderfynu cais am drwydded forol o dan baragraff (1) yn cynnwys cynnal ymchwiliad(**8**), mae'r ffi a bennir yn y drydedd golofn o'r tabl hwnnw yn daladwy yn ychwanegol at y ffi y cyfeirir ati ym mharagraff (1).

**Prosiectau ynni adnewyddadwy alltraeth**

**9.** Yn achos cais am drwydded forol sy'n ymwneud â phrosiect ynni adnewyddadwy alltraeth, penderfynir y ffi drwy gyfeirio at y raddfa ffioedd a bennir yn nhabl 7.

**Piblinellau tanfor ac adeileddau cysylltiedig**

**10.** Yn achos cais am drwydded forol sy'n ymwneud â phiblinell danfor neu adeiledd cysylltiedig ac yn dod o fewn disgrifiad yn y golofn gyntaf yn nhabl 8, penderfynir y ffi briodol drwy gyfeirio at yr ail golofn o'r tabl hwnnw.

**Olrheinyddion a lliwurau**

**11.** Yn achos cais am drwydded forol sy'n ymwneud â dyddodi olrheinyddion neu liwurau, penderfynir y ffi drwy gyfeirio at dabl 9.

**Angorfeydd a chymhorthion mordwyo**

**12.** Yn achos cais am drwydded forol sy'n ymwneud ag angorfeydd syml a chymhorthion mordwyo, penderfynir y ffi drwy gyfeirio at dabl 10.

*Jane Davidson*
Y Gweinidog dros yr Amgylchedd,
Cynaliadwyedd a Thai, un o Weinidogion Cymru

25 Chwefror 2011

(**8**) Mae adran 70(1) o Ddeddf y Môr a Mynediad i'r Arfordir 2009 yn darparu y caiff yr awdurdod trwyddedu priodol beri bod ymchwiliad yn cael ei gynnal mewn cysylltiad â phenderfynu cais am drwydded forol.

# YR ATODLEN

Rheoliadau 5, 6, 7, 8, 9, 10, 11 a 12

## Tabl 1

### Prosiectau adeiladu

| Band | Cost y prosiect (£) | Ffi (£) |
| --- | --- | --- |
| 1 | 0 i 5,499 | 127 |
| 2 | 5,500 i 9,999 | 715 |
| 3 | 10,000 i 49,999 | 1,025 |
| 4 | 50,000 i 1,999,999 | 2,275 |
| 5 | 2 filiwn i 4,999,999 | 4,525 |
| 6 | 5 miliwn i 19,999,999 | 7,191 |
| 7 | 20 miliwn i 49,999,999 | 12,010 |
| 8 | 50 miliwn ac uwch | 38,650 |

## Tabl 2

### Tâl atodol sensitifrwydd amgylcheddol

| Band | Cost y prosiect (£) | Tâl atodol (£) |
| --- | --- | --- |
| 1 | 5,500 i 9,999 | 275 |
| 2 | 10,000 i 49,999 | 575 |
| 3 | 50,000 i 1,999,999 | 950 |
| 4 | 2 filiwn i 4,999,999 | 1,350 |
| 5 | 5 miliwn i 19,999,999 | 1,605 |
| 6 | 20 miliwn i 49,999,999 | 1,720 |
| 7 | 50 miliwn ac uwch | 2,750 |

## Tabl 3

### Gwaredu deunydd a dreillir (ac eithrio at ddefnydd llesiannol)

| Band | Maint a waredir (tunelli) | Ffi (£) Cyfalaf | Ffi (£) Cynnal a chadw |
| --- | --- | --- | --- |
| 1 | 0 i 9,999 | 4,500 | 3,650 |
| 2 | 10,000 i 49,999 | 9,100 | 7,225 |
| 3 | 50,000 i 99,999 | 12,800 | 9,950 |
| 4 | 100,000 i 499,999 | 19,850 | 15,950 |
| 5 | 500,000 i 999,999 | 28,850 | 22,050 |
| 6 | 1,000,000 ac uwch | 43,500 | 34,750 |

**Tabl 4**

**Gwaredu deunydd a dreillir at ddefnydd llesiannol**

| **Band** | **Maint a waredir (tunelli)** | **Ffi (£)** |
|---|---|---|
| 1 | 0 i 99,999 | 715 |
| 2 | 100,000 i 999,999 | 2,275 |
| 3 | 1,000,000 ac uwch | 4,525 |

**Tabl 5**

**Gwaredu gwastraff pysgod**

| **Maint a waredir** | **Ffi (£)** |
|---|---|
| Unrhyw | 2,995 |

**Tabl 6**

**Echdynnu mwynau drwy dreillio morol**

| **Cais** | **Ffi (£)** | **Ffi ychwanegol pan gynhelir ymchwiliad(£)** |
|---|---|---|
| Echdynnu mwynau drwy dreillio morol | 27,500 | 15,000 |

**Tabl 7**

**Prosiectau ynni adnewyddadwy alltraeth**

| **Band** | **Gallu cynhyrchu (megawatiau)** | **Ffi (£)** |
|---|---|---|
| Band 1 | 0 i 0.99MW | 2,000 |
| Band 2 | 1 i 4.99MW | 6,000 |
| Band 3 | 5 i 99MW | 26,222 |
| Band 4 | 100MW ac uwch | 38,650 |

**Tabl 8**

**Piblinellau tanfor ac adeileddau cysylltiedig**

| **Cais** | **Ffi (£)** |
|---|---|
| Cyn-ysgubo | 10,670 |
| Dadlwytho cerrig | 2,275 |
| Matresu | 2,275 |

| Cais | Ffi (£) |
|---|---|
| Selio ffynhonnau neu bibellau (pan y'u gadewir) | 2,275 |

**Tabl 9**

**Dyddodi olrheinyddion a lliwurau**

| Cais | Ffi (£) |
|---|---|
| Dyddodi olrheinyddion | 83 |
| Dyddodi lliwurau | 83 |

**Tabl 10**

**Angorfeydd a chymhorthion mordwyo**

| Cais | Ffi (£) |
|---|---|
| Angorfeydd syml | 127 |
| Cymhorthion mordwyo | 127 |

## EXPLANATORY NOTE

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Rheoliadau)*

Mae'r Rheoliadau hyn yn gwneud darpariaeth mewn perthynas â'r ffioedd sydd i'w codi ynglŷn â cheisiadau am drwyddedau morol y mae Gweinidogion Cymru yn awdurdod trwyddedu priodol mewn perthynas â hwy o dan Ddeddf y Môr a Mynediad i'r Arfordir 2009.

Mae rheoliad 3 yn diffinio termau penodol a ddefnyddir yn y Rheoliadau.

Mae rheoliad 4 yn darparu ar gyfer talu ac adennill ffioedd.

Mae rheoliadau 5 i 12 a'r Atodlen yn gwneud darpariaeth ar gyfer penderfynu'r ffioedd sydd i'w codi mewn perthynas â cheisiadau am drwyddedau morol o ddisgrifiad sy'n dod o fewn y rheoliadau hynny.

Lluniwyd asesiad llawn o effaith y system drwyddedu forol a sefydlwyd o dan Ddeddf y Môr a Mynediad i'r Arfordir 2009, ac y mae ar gael o'r Uned Caniatadau Morol, Llywodraeth Cynulliad Cymru, Parc Cathays, Caerdydd CF10 3NQ neu ar wefan Llywodraeth Cynulliad Cymru yn www.cymru.gov.uk.